



Gwasanaeth Democraidd / Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW
BARMOUTH HARBOUR CONSULTATIVE COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

10.30 a.m. DYDD LLUN, 21 HYDREF 2013

10.30 a.m. MONDAY, 21 OCTOBER 2013

Lleoliad / Location

Theatr y Ddraig / Dragon Theatre
ABERMAW / BARMOUTH

Pwynt Cyswllt / Contact Point

GLYNDA O'BRIEN

: **GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

01341 424 301

Dosbarthwyd: 11.10.13

AELODAETH / MEMBERSHIP

Y Cyng. Gethin Glyn Williams	Aelod Tref Abermaw Member from Barmouth Town Council
Y Cyng. Louise Hughes	Aelod o Llangelynnin Member from Llangelynnin
Y Cyng. Eryl Jones-Williams	Aelod o Ddyffryn Ardudwy Member from Dyffryn Ardudwy
Y Cyng. R. A. Williams) Y Cyng. Lark Davies)	Aelodau o Gyngor Tref Abermaw Members of Barmouth Town Council
Y Cyng. Eric John Wilding	Aelod o Gyngor Cymuned Arthog Member of Arthog Community Council
Mr John Johnson	Aelod o Gymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion Member of Barmouth and Cardigan Bay Sea Fisheries Association
Mr Llew Griffin	Aelod o Glwb Hwyllo Meirionnydd Member of Merioneth Yacht Club
Mr David Bailey	Aelod o Cymdeithas y Bad Achub Member of the Royal National Lifeboat Institution
Ms Wendy Ponsford	Aelod o Gymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw Member of Barmouth Harbour & Estuary Users Association
Sylwedyddion / Observers:	
Y Cyng. / Cllr. R. J. Wright	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli / Pwllheli Harbour Consultative Committee
Dr J Jones Morris	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog / Porthmadog Consultative Harbour Committee
Cyng. /Cllr David Richardson	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi / Aberdyfi Consultative Harbour Committee

R H A G L E N

1. **Ethol Cadeirydd**

I ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013-14.

2. **Ethol Is-gadeirydd**

I ethol Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013-14.

3. **Ymddiheuriadau**

4. **Datgan Cysylltiad Personol**

5. **Cofnodion**

I dderbyn a nodi cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 19 Mawrth 2013.

(Atodiad 1 - Papur Gwyn)

6. **Adroddiad y Swyddog Morwrol**

I dderbyn ac ystyried adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies.

(Atodiad 2 - Papur Gwyrdd)

7. **Materion i'w hystyried ar gais aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol**

I dderbyn adroddiadau llafar gan y swyddogion priodol ar y materion canlynol:

- Gwaith i'r bont
- Cynllun Datblygu'r Harbwr, Carthu ac Angorfeydd
- LLithrfa Newydd
- Pontwn a Chamerau Cylch Cyfyng
- Marciau Traeth

8. **Dyddiad Cyfarfod Nesaf**

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar ddydd Iau, 20 Mawrth 2014.

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2013 ym Mharlwr Mawr, Theatr y Ddraig, Abermaw**

YN BRESENNOL

**Y Cynghorydd Gethin Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Eric Wilding (Is-gadeirydd)**

Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams, (Cyngor Gwynedd), Cyng. Lark Davies, Robert A. Williams, (Cyngor Tref Abermaw), Mr David Baily (Aelod o Gymdeithas y Bad Achub), Mrs. Wendy Ponsford (Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw), Mr Llew Griffin (Clwb Hwyllo Meirionnydd), Mr John Johnson (Aelod o Gymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion).

Hefyd yn bresennol ar wahoddiad:

Mr John Smith

Swyddogion

Mr Llyr Jones	-	Uwch Reolwr Economi a Chymuned
Mr Barry Davies	-	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig
Mr Ken Fitzpatrick	-	Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau
Mrs Glynda O'Brien	-	Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Louise Hughes (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. David C. Richardson (Sylwedydd ar ran Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi) a Mr Glyn Jones (Harbwr Feistr).

1. DYMUNIADAU GORAU

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod Mr Ken Fitzpatrick yn mynychu ei gyfarfod olaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn gan ei fod yn ymddeol o'r gwasanaeth ddiwedd mis Awst eleni. Roedd Mr Fitzpatrick wedi rhoi blynyddoedd lawer o wasanaeth i'r Cyngor fel Harbwr Feistr ym Mhwllheli, Harbwr Feistr Cynorthwyol ym Mhorthmadog ac yn ddiweddarach fel Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau. Yn sicr fe fyddai' bwllch enfawr ar ei ôl a diolchwyd iddo am ei ymroddiad i'r gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd a dymunwyd yn dda iddo yn ei ymddeoliad i'r dyfodol.

2. DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL

Datganodd yr Aelodau canlynol fuddiant personol yn y materion a nodwyd isod:

- (a) Y Cynghorydd Gethin Williams, Mrs Wendy Ponsford a Mr Llew Griffin mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r Clwb Hwyllo oherwydd eu bod yn Aelodau o'r Clwb.
- (b) Mr Llew Griffin a Mr John Johnson mewn perthynas ag Eitem 4 – Adroddiad y Swyddog Morwrol ac yn benodol cyfeiriad at Ardal Harbwr Aberamffra gan eu bod yn rhentu siediau yn Aberamffra.

Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni fu iddynt adael y cyfarfod yn ystod y trafodaethau ar yr eitemau penodol uchod.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Hydref, 2013, fel rhai cywir.

3.1 MATERION YN CODI O'R COFNODION

(a) Eitem 5 (ii) (b) - Adroddwyd y derbyniwyd cefnogaeth i gychwyn ar y gwaith i sefydlu rhan ar y Wefan i'r Gwasanaeth Morwrol osod gwybodaeth a deunyddiau'r gwasanaeth.

(b) Eitem 6 (d) - Trwyn Penrhyn, Fairbourne - Adroddwyd nad oedd cynnydd wedi digwydd ynglŷn â rheolaeth dros y llecyn tir lle mae faniau yn gweryslla dros nos ym Mhwynt Penrhyn, Fairbourne. Ar hyn o bryd, parheir i drafod hefo'r Adran Rheoleiddio i ystyried creu Gorchymyn Parcio ar lecynnau penodol ac roedd Pwynt Penrhyn yn un o'r llecynnau hyn.

Deallir gan Asiantaeth yr Amgylchedd bod y llecyn lle mae'r faniau a cheir yn parcio yn ardal gorlifdir ac y byddai'n ddoeth cysylltu â'r corff hwn ynglŷn ag unrhyw rybudd y bwriedir rhoi ar y tir.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglŷn â ffioedd parcio, esboniodd y Swyddog Morwrol na fydd y Gorchymyn yn un talu ac arddangos ond yn hytrach gwaharddiad parcio dros nos.

Nodwyd pryderon y Pwyllgor Ymgynghorol hwn o'r ffaith bod cynnydd yn y nifer o faniau yn gweryslla dros nos ar y tir hwn ac awgrymwyd y dylid adrodd ymhellach ar y mater yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn yn yr Hydref.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

4. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL

Cyflwynwyd: Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Abermaw gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

(i) Mordwyo ac Angorfeydd

(a) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod 75% o'r adolygiad Côt Diogelwch Harbyrau wedi ei gwblhau a hyderir y byddir yn ei gwblhau erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol yn yr Hydref.

(b) Nododd y Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau bod 2 o'r cymhorthion wedi bod oddi ar eu safle ond bellach roeddynt yn ôl heblaw'r bwi dur sydd ym Mhorthmadog yn cael ei atgyweirio. Cadarnhawyd bod goleuadau ar bob un cymhorthydd a hyderir y byddir wedi cwblhau'r gwaith i roi golau ar y bwi mewnol cyn diwedd mis Mai eleni.

(c) Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y bwriedir gosod y bwiau parth traethau erbyn gwyliau Sulgwyn oherwydd ni welir yr angen i'w gosod cyn hynny. Fe fyddir yn ail-asesu effeithlonrwydd y bwiau i fyny am Sunnysands a gwerthfawrogir cefnogaeth Caerdaniel. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglŷn a fyddai defnyddio bwiau symudol yn llai costus, eglurodd y Swyddog Morwrol am yr angen i gael cysondeb ar hyd arfordir y Sir ar gyfer gwaharddiadau.

(ch) Cyflwynwyd rhestr i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod gan nodi'r angorfeydd hynny sydd wedi eu cynnal. Roedd oddeutu 50 cais am angorfeydd wedi eu cyflwyno hyd yma ac fe'i trosglwyddir i'r contractwr yn ddi-oed yn absenoldeb yr Harbwr Feistr o'i waith oherwydd gwaeledd. Nodwyd y bydd gan y Gwasanaeth 5 angorfa newydd sydd i'w lleoli yn y dŵr o flaen Swyddfa'r Harbwr ac fe fyddir yn symud y ddau breifat sydd yno'n barod i'r ochr. Cadarnhawyd bod y perchnogion yn ymwybodol o hyn a phwysleisiwyd nad oes gan berchennog cwch hawl i safle angorfa benodol.

(d) Buddsoddwyd yn sylweddol mewn cadwyni a'r angorfeydd a chadarnhawyd bod Tŷ'r Drindod yn hapus gyda'u cyflwr wedi eu harchwilio yn ddiweddar.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(ii) Trwyddedau Perchnogion a Chychwyr

Adroddodd y Swyddog Morwrol bod y Gwasanaeth wedi rhyddhau dau gais am drwydded cwch a dau gais am drwydded perchennog ar gyfer gweithredu'r fferi. Bu i'r swyddogion gyfarfod gyda pherchennog un fferi er mwyn egluro'r telerau a sicrhau bod yn ofynnol cydymffurfio â rheolau'r Harbwr. Ychwanegwyd bod y manau glanio yn eu lle gyda'r pontŵn yn ychwanegiad mwy hwylus. Fe nodwyd y bydd un ohonynt yn weithredol cyn y Pasg a hyderir y bydd pawb yn gallu cyd-fordwyo'n llwyddiannus eleni.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglyn â chyfnod y trwyddedau, esboniodd y Swyddog Morwrol bod y drwydded yn weithredol 7 niwrnod cyn y Pasg tan ddiwedd mis Hydref ac os bydd rhaid tynnu trwydded oddi ar weithredwr yna gellir unigolyn arall gael yr hawl i weithredu. Fe fydd y trwyddedau a fydd yn cael eu rhyddhau eleni yn ddilys tan ddiwedd mis Mehefin pryd y bydd pob trwydded yn cael ei adolygu. Pe bydd trwydded yn cael ei hail gyflwyno yna ni fydd yna gost ychwanegol am y drwydded.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(iii) Ystadegau Morwrol

(a) Adroddwyd bod lleihad yng nghyfanswm cofrestriad y cychod pŵer ar gyfer 2012 sef 868 a'r tebygolrwydd bod hyn oherwydd pris uchel tanwydd a'r tywydd gan fod y lleihad yn gyffredinol ar draws pob un o'r Harbyrau. Yn yr un modd, roedd lleihad yn nifer cofrestriad badau dwr personol ar draws Wynedd a oedd yn cael effaith ar gyllidebau'r Harbyrau. Roedd hyn hefyd yn gyffredinol mewn awdurdodau cyfagos eraill. Er bod y patrwm yn gostwng yn yr Harbyrau eraill roedd y nifer badau dwr personol yn cynyddu yn Abermaw.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(iv) Cyllidebau

(a) Tywyswyd yr Aelodau drwy'r targedau cyllideb gyfredol 2012-13; gwariant ac incwm cyfredol at ddiwedd Chwefror ac adolygiad chwarter tri gan dynnu sylw i'r canlynol:

- Rhagwelir y bydd arbediad o oddeutu £9,000 ar y gyllideb staffio oherwydd ymrwymiad i benodi un swyddog a hanner
- Rhagwelir y bydd costau'r Harbwr yn oddeutu £11,000 yn uwch na'r hyn sydd yn y gyllideb ac fe wnaed buddsoddiad o £10,000 yn yr Harbwr flwyddyn yma ar gyfer ysgolion, pwmp disel, a.y.b.
- Bod cyllid o oddeutu £10,150 o dan y pennawd cynnal a chadw cyffredinol

- Bod yr incwm yn seiliedig ar ffigyrau hanesyddol gyda tharged o oddeutu £48,000 a rhagwelir oddeutu £12,000 o orwariant sydd yn fuddsoddiad o £17,000 yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael

(b) Nododd Aelod nad oedd yn gwneud synnwyr o gwbl i'r targedau gynyddu ac yr un pryd bod yr Harbwr yn colli incwm o werthiant y siedau.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod y sylw uchod yn un dilys ac eglurwyd yn hanesyddol bod pob Adran yn cael targed ac o ran trefniadau gwaredu eiddo y dylai'r targed incwm gael ei ddiddymu. Roedd y targedau incwm yn cael ei gosod yn seiliedig ar gwsmeriaid yr Harbwr a phatrwm hanesyddol. Rhaid nodi bod nifer o'r cwsmeriaid wedi lleihau ac yn dilyn trafodaeth gyda'r Swyddog Cyllid cytunwyd i ostwng y targedau incwm ac fe fyddir yn ei adolygu yn flynyddol. Roedd yr union broses yn digwydd yn Harbyrau eraill hefyd ond nodwyd bod cynnal a chadw'r siediau yn gostus i'r Gwasanaeth a'r incwm a dderbyniwyd ohonynt ddim digon i'w osod yn erbyn y gwariant.

Ychwanegodd y Cadeirydd y cynhaliwyd cyfarfod buddiol iawn gyda'r Aelod Cabinet perthnasol er mwyn ystyried targed mwy realistig ar gyfer Harbwr Abermaw.

(c) Cyfeiriwyd at y tabl yn dangos effaith chwyddiant ar y gyllideb ac mai 1% a bennir ar gyfer Harbwr Abermaw ar gyfer 2013-14 sy'n golygu £48,900 o darged terfynol. Penderfynwyd cadw'r ffi lansio o £12.00 yn hytrach na'i godi i £15.00 yn y gobaith o annog pobl i fanteisio ar y cyfleusterau sydd yn Abermaw.

(ch) Awgrymwyd a fyddai'n bosibl cael gwasanaeth yr Harbwr Feistr ar gyfer lansio ym Mhenrhyn Pwynt, Fairbourne. Gwelwyd oddeutu 17 cwch yn lansio oddi yno ac mae'n debyg nad oedd rhai ohonynt heb gofrestru ychwaith. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol bod hwn yn fater i'w ystyried i'r dyfodol ond bod anawsterau oherwydd nad oedd darpariaeth swyddfa, toiled a.y.b. yno. Efallai ar ddiwrnodau braf y gallasai'r Harbwr Feistr weithio yno am oddeutu 2 awr ond rhaid cofio bod costau o gynnal Penrhyn Pwynt yn llawer iawn uwch na'r incwm fyddai'n dod i mewn. Yn y gorffennol, derbyniwyd cynnig gan oedolion o Fairbourne i gasglu ffioedd lansio yn achlysurol.

(d) Awgrymwyd a fyddai modd ystyried gosod bocs gonestrwydd yno. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol y gellir ystyried hyn ymhellach ond ei fod yn pryderu efallai bydd y blwch yn cael ei ddwyn.

(dd) Mynegwyd pryder ynglŷn â oedd gan gychod yswiriant priodol. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Morwrol ni ellir gorfodi cychod i yswirio ond pan maent yn cofrestru gyda'r Cyngor fe fydd y perchnogion yn arwyddo bod ganddynt yswiriant.

(e) Gan fod yr uchod yn fater o bryder i'r Pwyllgor Ymgynghorol, awgrymwyd y byddai o fudd i gynnal cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Arthog a'r Pwyllgor Ymgynghorol ynghyd â'r swyddogion er mwyn sefydlu cynllun gweithredu i ddatrys y broblem gynyddol o gychod yn lansio o Bwynt Penrhyn heb dalu ac efallai mewn rhai achlysuron heb yswiriant.

Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig drefnu cyfarfod fel yr amlinellir yn (e) uchod pan fydd yr Harbwr Feistr yn ôl yn ei waith.

(v) Digwyddiadau

(a) Adroddwyd gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig:

- bod y Gwasanaeth yn gefnogol i Ras y Tri Chopa a bod cyfarfod wedi ei drefnu i drafod trefniadau terfynol. Nodwyd pwysigrwydd i gefnogi'r achlysur hwn ac i groesawu'r cychod wrth gyrraedd Abermaw.
- Bod y Penwythnos Regata Ceufadau yn profi'n boblogaidd dros ben a hyderir y bydd y tywydd mwy ffafriol eleni ar gyfer yr achlysur
- Ni fyddir yn llwyddo i gael y Faner Las eleni oherwydd canlyniad anffafriol yr ansawdd dwr ymdrochi ar gyfer y flwyddyn 2008. Esboniwyd yn unol â chanllawiau newydd sydd wedi dod i rym, rhaid i ganlyniadau'r ansawdd dŵr ymdrochi fod yn rhagorol am bum mlynedd. Ychwanegwyd bod canlyniadau flwyddyn yma yn ardderchog a hyderir y gellir cyflwyno cais am y Faner Las eto flwyddyn nesaf.
- Bod canlyniadau ansawdd dŵr ymdrochi yn Fairbourne yn rhagorol ar gyfer llwyddo i gael y Faner Werdd. Esboniwyd y gwahaniaeth rhwng y Faner Las a'r Werdd gan nodi er bod y safonau disgwylidig run fath bod y Faner Las yn ddynodedig i draeth trefol a'r Werdd yn ddynodedig i draeth gwledig. Mae gofynion y Faner Las yn golygu bod rhaid cael goruchwyliaeth staff ar y traeth yn ddyddiol dros gyfnod y bydd y Faner yn chwifio sydd yn gostau ychwanegol i'r Gwasanaeth. Bydd y Gwasanaeth Morwrol yn gwneud cais i Gynghorau Tref / Cymuned y flwyddyn yma am gostau ceisiadau'r Gwobrau Traeth gan nad oes gan y Gwasanaeth gyllideb ar ei gyfer.
- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â goruchwyliaeth yn Fairbourne, esboniodd y Swyddog Morwrol na fyddai modd rhoi goruchwyliaeth ar y traeth a bod gan y Gwasanaeth draethau eraill heb oruchwyliaeth sydd yn llawer iawn mwy poblogaidd na thraeth Fairbourne megis Porth Neigwl, Llandanwg a Harlech ac mae'n rhaid pwysu a mesur y risgiau ynghlwm ar bob traeth ac ni ellir yn anffodus sicrhau goruchwyliaeth ar bob un o'r traethau.

(b) Gwnaed sylw gan y Cadeirydd y dylid cyflwyno cais i Adran Rheoleiddio'r Cyngor am yr arian a dderbynnir o'r meysydd parcio ac ar y promenâd yn Abermaw o ystyried bod y bobl hynny sydd yn parcio yno i ddefnyddio'r traeth. Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y gyllideb traethau yn dod o bennawd cyllideb ar wahân i gyllideb yr harbwr.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(c) Adroddwyd bod yr ymgynghoriad Gorchymyn Cŵn wedi bod yn llwyddiannus gan nodi y bydd arwyddion yn cael eu gosod ar bob traeth gyda'r Gorchymyn newydd yn dod i rym o'r 1 Ebrill 2013. Nodwyd y bydd gan swyddogion hawl i roi dirwy i bobl sydd yn cerdded cŵn ar barthau anawdurdodedig. Nodwyd bod pryder wedi codi gan y Cyngor Tref ynglŷn â chŵn yn baeddu ar y traeth a'r Promenâd ond nid oedd gan y Gwasanaeth Morwrol adnoddau ychwanegol i ymdrin â hyn. Deallir bod yr Harbwr Feistr yn Abermaw wedi bod yn rhoi dirwy i berchnogion yn y gorffennol.

(ch) Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod wedi trafod gyda'r Harbwr Feistr y gellir treialu system gyda pheiriant sugno a weithredir o dan ofalaeth y Rheolwr Gwasanaethau Stryd ac efallai y byddai hyn o fudd i Abermaw.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(vi) Consesiynau a Gwelliannau

(a) Adroddwyd:

- Bod rheolau caeth yng nghyswllt gwaredu fflachiadau ac anogwyd defnyddwyr i'w cludo i Swyddfa'r Harbwr Feistr a fyddai wedyn yn trefnu i'w gwaredu gan gwmni arbenigol. Edrychir ar y posibilrwydd o gael safle cyfreithiol ym Mhorthmadog i'w gwaredu'n ddiogel er mwyn storio'r fflachiadau ac i gydymffurfio â'r rheolau. Ar hyn o bryd y lle agosaf i'w gwaredu yw Caergybi. Talwyd oddeutu £3,000 i'w gwaredu yn ddiweddar oherwydd bod rhaid sicrhau nad oes peryglon o amgylch Swyddfa'r Harbwr. Deallir bod canllawiau'r ddeddf yn newid lle bo rhaid i'r gwneuthurwyr eu cymryd yn ôl i'w gwaredu.
- Y cynhaliwyd cyfarfodydd ynglyn â'r compownd morwrol a hyderir y byddir ym mis Ebrill yn anfon cytundebau iddynt fel bo trefniadau ffurfiol mewn lle. Rhoddwyd cloeon ar y giatiau ynghyd â rhwystr ond serch hynny nid ydynt yn cael defnydd a bu staff yr Harbwr yn gwaredu deunyddiau oddi yno yn ddyddiol i Ffridd Rasmus, Harlech. Gobeithir y bydd y cytundebau yn arf i gael gwell rheolaeth ar y safle i'r dyfodol. I geisio lliniaru'r broblem awgrymwyd y dylid rhoi clo ar y rhwystr wrth ymyl sied y Clwb Hwyllo i rwystro'r cyhoedd fedru cael mynediad i waredu ysbwriel yno a chyfarwyddo deiliad y compownd i sicrhau eu bod yn cloi'r rhwystr ar bob achlysur.
- Bod yr ysgolion ar y cei wedi eu hadnewyddu
- Nad oedd rheolaeth y Pontŵn wedi ei ddatrys hyd yma. Tynnwyd bysedd y Pontŵn a'r bwriad yw eu rhoi yn ôl erbyn 1af Mai eleni oherwydd gall y tywydd fod yn anffafriol i fyny hyd at hynny. Pwysleisiwyd, yn dilyn cais i'w rhoi yn ôl ynghynt, y byddai'n rhaid i rywun gymryd cyfrifoldeb amdanynt heblaw'r Gwasanaeth Morwrol. Oherwydd y gwahanol farn ynglyn â rhoi bysedd y Pontŵn yn ôl a'u bod yn ddibynnol ar bryd fydd y tymor morwrol a gwyliau'r Pasg, awgrymwyd i'w drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Ymgynghorol hwn ar yr adeg yma flwyddyn nesaf.
- Bod y mwyafrif o'r Siediau yn Aberamffra wedi eu gwaredu bellach a chadwyd un sied ar ôl
- Yn hanesyddol derbynnir nifer o geisiadau ynglŷn â chonsesiynau am weithgareddau megis darpariaeth mulod ar y traeth, trampolîn, siglenni, a.y.b. yn flynyddol. Yn ogystal â cheisiadau gan unigolion sydd yn dymuno gwerthu nwyddau yn achlysurol ond rhaid ystyried yr effaith gaiff hyn ar gonsesiynau eraill a'r busnesau lleol. Yn ogystal, fe leolir caban ar y promenad sydd yn cael ei reoli gan y Gwasanaeth Morwrol drwy Gymorth yr Uned Eiddo. Y llynedd derbyniwyd a chaniatawyd cais am gonsesiwn i hurio cadeiriau glan y môr. Derbyniwyd cais eto eleni i'r consesiwn hwn barhau yn 2013. Hefyd, derbyniwyd cais i werthu nwyddau ar hyd y promenad ond roedd y Gwasanaeth Morwrol ychydig yn bryderus ynglyn â hyn oherwydd yr effaith a gaiff ar fusnesau lleol. Fel rheol codir ffi o oddeutu £80 y flwyddyn ond fe fydd yn rhaid ail-edrych ar hyn. Trafodwyd gydag Uned Trwyddedu'r Cyngor ar y cais a dderbyniwyd a deallir y bydd yr Uned Drwyddedu yn ymdrin â'r mater yn uniongyrchol gyda'r ymgeisydd. Nodwyd bod rheolau mewn lle sef bod gwaharddiad masnachu yn bodoli ar bob un stryd oni bai bod y Cyngor yn codi'r hawl hynny i unigolion sydd wedi cyflwyno cais. Mae rhai strydoedd gyda gwaharddiad llwyr i fasnachu ar y stryd ac eithrio masnachu gan Elusennau. Felly, nodwyd bod ceisiadau am gonsesiynau bellach wedi eu cyfeirio at yr Uned Trwyddedu er ystyriaeth. Cadarnhawyd y byddant yn ymgynghori â'r Aelod Lleol a'r Cyngor Tref. Nodwyd bod ymgynghoriad pellach wedi digwydd ynglyn a thrwydded pedlar sydd yn cael ei weithredu gan yr Heddlu a deallir bod yn rhaid i'r unigolyn gyda'r math yma o drwydded fod yn symud o un pentref i'r llall.
- Mewn ymateb i sylw wnaed ynglŷn â gwrthod cais am gonsesiwn oherwydd cystadleuaeth gyda masnachwyr lleol, nododd Aelod o'r Cyngor Tref bod y Cyngor hwnnw yn cymryd i ystyriaeth y busnesau lleol sydd yn talu trethi ar hyd y flwyddyn a'u bod felly yn cael blaenoriaeth. Teimlwyd nad oedd yn deg i unigolyn gymryd mantais o fasnachu ar ddiwrnodau o dywydd braf ar draul y busnesau lleol sydd yn gorfod masnachu drwy'r flwyddyn be' bynnag fo'r tywydd.
- bod stonidin yr unigolyn sydd yn gweithredu ar drwydded pedlar i fyny drwy'r flwyddyn ac oni ddylid gweithredu ar hyn.

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r sylwadau uchod.

(b) Cymeradwyo:

(i) i drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Ymgynghorol adeg yma flwyddyn nesaf pryd y dylid rhoi bysedd y Pontŵwn yn ôl.

(ii) bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn anfon copïau o Is-ddeddfau'r Harbwr a'r Promenad i Mr Llew Griffin.

(vii) Symud Tywod Gwanwyn 2013

(a) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod trefniadau ar waith i symud tywod eleni.

(b) Cyflwynwyd lluniau a derbyniwyd adroddiad gan Aelod yn nodi ei fod o dan yr argraff bod dan yr argraff bod y rhigolau i'r twyni yn ffenomenau naturiol ac ni allai ddeall pam bod tywod yn cael ei waredu ychydig tua'r tir i'r twyni. Ymddengys bod hyn yn oedi cynnydd naturiol y twyni. Hefyd, mae'r peiriant sy'n clirio'r tywod oddi ar y Promenad yn ymddangos i'w waredu yn Ynys y Brawd.

Nodwyd bod ffenomenau naturiol yn creu'r hyn a elwir yn llac twyni a'i fod yn digwydd yn naturiol yn natblygiad twyni. Nodwyd cyn gynted a bod dŵr yn casglu yno fe fydd alcalinedd y tywod yn lleihau ac felly yn creu tyfiant yno ac yn creu twyni llwyd. Er ei fod yn edrych fel mwd, nodwyd bod mwsogl a phlanhigion eraill yn tyfu yno. Teimlai'r Aelod ei fod yn rhyfedd i geisio ymyrryd â natur ac mewn amser fe fyddai'r twyni llwyd yn troi yn rhostir o goetir gyda'r llac twyni llwyd yn dod yn sefydlog tra bod y twyni melyn yn symudol. Does dim ond rhaid edrych ar sustem twyni yn Harlech ac roedd yr Aelod o'r farn y dylid annog tyfiant naturiol yn hytrach na'i gladdu.

Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn cwynion bod y dŵr sy'n sefyll yn ddrewllyd.

(c) Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y twyni wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd. Mewn ymgynghoriad â'r Cyngor Tref sawl blwyddyn yn ôl penderfynwyd datblygu twyni tywod ar hyd ochr y morglawdd i rwystro tywod rhag chwythu drosodd i ardal y Baddon. Tra'r derbyn y sylwadau uchod, nodwyd mai'r bwriad ydoedd ceisio creu ardal i fwynhau gweithgareddau glan y môr. Derbyniwyd llawer o gwynion am y twyni tywod dros y blynyddoedd ond rhaid cofio nad yw mewn safle naturiol ac mai'r bwriad ydoedd clirio'r mwd a'r tyfiant oddi yno a chreu traeth i'w fwynhau ar gyfer hamddena.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(viii) Cynnal a Chadw Llithrfeydd

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn dilyn archwilio'r Llithrfeydd bod eu cyflwr wedi cyrraedd safon dderbyniol lle nad oes pryderon ynglyn â hwy ac fe barheir i'w harchwilio a'u cynnal a'u cadw.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(xi) Staff Harbwr

Bwriedir cynnal cyfweiliadau am Gymhorthydd i'r Harbwr Feistr gyfer y Gwanwyn / Haf 2013 a hyderir, oherwydd absenoldeb yr Harbwr Feistr o'i waith, y gall yr ymgeisydd llwyddiannus gychwyn ynghynt na'r disgwyl.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(x) Rhaglen Waith Cynnal a Chadw 2013

Adroddwyd nad oedd pryderon o safbwynt y rhaglen waith cynnal a chadw a chadarnhawyd y byddai'r hysbysfyddau allweddol i fyny erbyn y Pasg.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

(a) Llithrfa Newydd

Adroddodd cynrychiolydd y Clwb Hwyllo tra nad oedd gan y Clwb Hwyllo wrthwynebiad i'r llithrfa newydd arfaethedig ar y gornel, ni welir y byddai o fudd iddynt nac ychwaith i'r gymuned leol a chlwb hwyllo'r plant. Roedd ganddynt bryderon ynglŷn ag adleoli'r giât yn y ffens i gompownd y clwb, lleihad yn eu hardal refeniw, a lleihad aruthrol yn y nifer o fannau parcio fydd ar gael. Mynegwyd pryder ychwanegol ynglŷn ag ongl y llithrfa arfaethedig oherwydd rhagwelir y gall ddifrodi "towbars" a chwestiynwyd lle fyddai refeniw parcio ceir ac ôl-gerbydau yn cael ei gyfeirio.

Roedd gan y Clwb Hwyllo syniadau eu hunain ynglŷn â llithrfa arfaethedig tu allan i'r Clwb Hwyllo a fyddai yn llithrfa gymunedol ond bod angen trafod gyda'r Prif Beiriannydd cyn symud ymlaen ymhellach gydag unrhyw fwriadau.

Penderfynwyd: Gofyn am gyfarfod buan gyda'r Prif Beiriannydd i drafod syniadau'r Clwb Hwyllo ar gyfer y llithrfa arfaethedig.

(b) Rheolaeth ac Arwyddion o Amgylch y Pontŵn.

Mewn ymateb i bryder bod yr arwyddion o amgylch y pontŵn ddim yno, cytunodd y Swyddog Morwrol ymchwilio i'r mater hwn.

Cadarnhawyd y cynhelir archwiliad wythnosol o'r pontŵn a chadarnhawyd y byddir yn ei gynnal a'i gadw fel bo angen.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(c) Meinciau Picnic ac Ardal Lwytho

Adroddwyd bod y meinciau picnic sydd wedi eu lleoli tu allan i doiledau cyhoeddus y dynion yn rhwystro loriau fedru llwytho a dadlwytho cychod ac o ystyried bod yr Harbwr yn un masnachol gofynnwyd a fyddai modd tynnu'r meinciau picnic a rhoi dwy ohonynt ochr toiledau'r merched a rhoi marciau melyn ar gyfer ei ddynodi'n ardal llwytho.

Mewn ymateb, cytunodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i'w tynnu ar gais y Pwyllgor ond roedd yn wybyddus mai'r contractwyr sydd yn ei ddefnyddio fel ardal i gadw peiriant yna drwy'r dydd ar gyfer cynnal gwaith oddi amgylch yr harbwr.

Dyfynnwyd rhan o adroddiad Swyddog Iechyd a Diogelwch a oedd yn nodi bod “rhan o'r Promenad ger y toiledau cyhoeddus heb ei warchod gyda chanllaw i rwystro cwmp ac felly yn cynnig bod y rhan hwn o'r promenad yn cael canllaw amddiffynol”.

Penderfynwyd: Cymeradwyo i dynnu meinciau o'r ardal uchod dros dro a monitro'r sefyllfa parcio ac os oes unrhyw broblemau yna bydd yn rhaid eu gosod yn ôl.

(ch) Cloeon - Aberamffra

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd hawl tramwy cyhoeddus i Aberamffra a'r unig bobl sydd gan hawl yw'r rhai sydd wedi prynu'r eiddo sydd yno. Os oes unigolyn angen mynd i Aberamffra gellir cael allwedd gan yr Harbwr Feistr a'i dychwelyd wedyn. Profwyd problemau oddeutu 9 mlynedd yn ôl lle'r oedd parcio, offer yn cael eu gadael yno a'r unig opsiwn ydoedd ei gau.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(d) Adeilad y Dora a Siediau Aberamffra

Adroddwyd bod un sied yn Aberamffra yn wag a mawr obeithwyd y bydd uned oddi fewn adeilad y Dora yn cael ei gymryd drosodd gan y Gwasanaeth Morwrol i'w ddefnyddio ar gyfer storfa a darpariaeth cynnal a chadw.

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd yn gefnogol i aeafu cychod yn ardal y cei yn Abermaw oherwydd cyflwr bregus wal y cei.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(dd) Gwaith ar y Bont

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â fyddai Network Rail yn ymestyn defnydd o'r caergawell, awgrymwyd y dylid ysgrifennu llythyr yn gofyn am fanylion o'u cynlluniau ynglŷn â hyn.

Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig wneud cais i Network Rail am fanylion o'u cynlluniau ynglŷn â gwaith ar y bont.

(e) Gwirfoddolwyr

Gofynnwyd a fyddai'n bosibl denu gwirfoddolwyr i ymgymryd â gwaith i helpu'r Harbwr Feistr megis i helpu lansio cychod, clirio o amgylch yr Harbwr, a.y.b.

Mewn ymateb, esboniwyd bod unrhyw gynllun yn syniad da ac os oes pobl yn fodlon gwirfoddoli yna iddynt gysylltu â'r Gwasanaeth Morwrol.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(f) Cynllun Datblygu'r Harbwr

(a) Croesawyd Mr John Smith i'r cyfarfod a bu iddo esbonio a chyflwyno cynlluniau arfaethedig o brosiect yn yr Harbwr i wella mynediad i'r draphont o'r dref. Teimlwyd y byddai rhodfa gerdded yn gwella mynediad o'r bont i'r Harbwr. Sefydlwyd Grŵp Datblygu mewn ymgynghoriad â'r Cyngor Tref er mwyn datblygu'r syniad uchod ac adroddwyd y cynhelir

arddangosfa gyhoeddus yn y prynhawn (19.03.13) er mwyn canfod diddordeb y gymuned. Pe derbynnir cefnogaeth gymunedol gellir wedyn cysylltu â'r awdurdodau perthnasol.

Bu i'r Grŵp Datblygu adnabod dwy broblem efallai sef cais cynllunio ar gyfer y rhodfa gerdded ynghyd â pherchnogaeth tir. Cyfarfu'r Grŵp gyda'r Swyddog Cynllunio a oedd yn gefnogol i'r bwriad arfaethedig yn gyffredinol gan ei alw'n ddatblygiad ardrawiad isel. Yn ogystal roedd Network Rail, perchennog y tir, yn gefnogol hefyd.

Nodwyd pe derbynnir cefnogaeth y cyhoedd gellir wedyn cysylltu â Chyngor Gwynedd gan bwysleisio'r angen i'r Cyngor fod yr awdurdod cymwys ar gyfer derbyn adnoddau ariannol. Hyderir y gellir trefnu cyfarfod gyda swyddogion priodol Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (Trac) er mwyn trafod ymhellach ffynonellau ariannol.

Byddai'r prosiect yn golygu i'r llwybr arfordir gysylltu ag Abermaw ac a fyddai yn ddefnyddiol i bawb. Ar hyn o bryd, casglir gwybodaeth o ddefnydd y bont, Llwybr Mawddach, Taith Ardudwy, er mwyn darganfod y math o ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r darpariaethau hyn.

(b) Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod y Grŵp Datblygu wedi cymryd y camau cychwynnol cywir yn enwedig i sefydlu be ydi'r gefnogaeth leol a'i fod yn bwysig i geisio rheoli disgwyliadau a gobeithion yn enwedig mewn cynllun mor uchelgeisiol. Nodwyd bod trafodaeth yn mynd rhagddo ynglŷn â ffynonellau ariannol i'r dyfodol. Bydd ffynhonnell adfywio yn lleihau ac yn canolbwyntio ar oddeutu 12 o ardaloedd penodol. Deallir bod Rhaglen Ewropeaidd yn cael ei datblygu ar gyfer 2014-2020 sy'n olynu Rhaglen Cydgyfeiriant ac ar hyn o bryd mae canllawiau yn cael eu i ddrafftio gydag ymgynghoriad yn y Gwanwyn a gobeithir bydd twristiaeth ac adeiladu ar ddatblygu llwybrau arfordirol yn debygol o fod yn gymwys. O ran symud ymlaen, awgrymwyd y byddai un o Swyddogion Adfywio'r Cyngor yn gallu cefnogi'r Grŵp Datblygu er mwyn cael astudiaeth dichonoldeb a chynllun busnes mewn lle. Nodwyd bod agweddau technegol i'w hystyried ond y cam cyntaf ydoedd adnabod cyllideb baratoawl, sgopio'r opsiynau, manylion perchnogaeth tir, ynghyd â beth yw'r hawliau fydd angen i ddod â'r cynllun at ei gilydd. Bydd prosiectau i'r dyfodol angen rhoi sylw i beth yw'r budd economaidd a faint o swyddi a greuir o gynlluniau.

(c) Llongyfarchwyd Mr John Smith a'r Grŵp Datblygu am y gwaith ardderchog sydd wedi ei gyflawni hyd yma. Derbynia'r prosiect gymeradwyaeth y Pwyllgor Ymgynghorol oherwydd y byddai o fudd i ddefnyddwyr yr Harbwr.

Penderfynwyd: (i) Derbyn, nodi a diolch am y cyflwyniad gan Mr John Smith a chymeradwyo'r cynllun arfaethedig.

(ii) Gofyn i'r Uwch Reolwr Economi a Chymuned gysylltu â'r Swyddog Adfywio i drafod ymhellach gyda Mr John Smith ar y camau nesaf.

(g) Materion Iechyd a Diogelwch

Nodwyd y byddir yn trafod yr uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor Ymgynghorol yn yr Hydref.

(ng) Adroddiad ar y Cynllun Rheolaeth Cyrchfan

Nodwyd y byddir yn trafod yr uchod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol yn yr Hydref.

(i) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â chlirio anifeiliaid morol neu ffarm sydd wedi marw ar y traethau, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y gwasanaeth yn ymateb i wneud hyn ond roedd wedi bod yn anodd yn ddiweddar gan mai dim ond un aelod o staff oedd

ar ddyletswydd ym Meirionnydd. Nododd ymhellach nad oes rheidrwydd ar i'r Gwasanaeth i symud anifeiliad sydd wedi marw ond fe wneir hyn os ydyw yn ymarferol bosibl.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(i) Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd y bydd staff yn gosod y fflagiau coch ar y blaendraeth yn Fairbourne.

(j) Nodwyd bod angen ar frys mynediad pedestraidd o'r llwybr igam-ogam i'r Promenad ar Ffordd Glan y Môr yn Fairbourne. Pan fydd cerddwyr yn cyrraedd y morglawdd nid oes mynediad iddynt i'r traeth a gofynnwyd a fyddai modd gweithredu ar hyn.

Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oes rheidrwydd ar y Gwasanaeth i greu mynediad anabl i unrhyw draeth. Nid oedd yn rhagweld unrhyw gynllun i wneud llwybr dros y marian oherwydd ei fod yn rhan naturiol o'r arfordir ac ni ellir creu rhywbeth artiffisial. Nodwyd bod mynediad ramp ar gael ym Mhenrhyn Drive South ond os dymunai unrhyw grŵp wneud cais yna gallasant gysylltu fel cam cyntaf â'r Swyddog Adfywio yn Swyddfeydd y Cyngor yn Nolgellau ac yna cyflwyno cais i FRAG.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Adroddwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ar 21 Hydref 2013.

Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod

CADEIRYDD

***Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr
Abermaw
Harbour Consultative Committee***

21 Hydref / October 2013

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Crynodeb o'r eitemau i'w trafod.

Maritime and Country Parks Unit – Summary of items for discussion.

1. Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau / Harbour Consultative Committees

- Cylch Gorchwyl Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw 2014 / Abermaw Harbour Consultative Committee Terms of Reference 2014
- Cynrychiolaeth Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw2014/ Abermaw Harbour Consultative Committee Representatives 2014
- Materion Agenda Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau / Agenda Items for Harbour Consultative Committees

2. Cod Diogelwch Harbyrau / Port Marine Safety Code

- Cod Diogelwch Harbyrau 2012 / 2012 Port Marine Safety Code (copi ynghlwm ar wahan - copy enclosed separately)
- Cod Diogelwch Harbyrau Gwynedd / Gwynedd Harbours Port Marine Safety Code (copi ynghlwm ar wahan - copy enclosed separately)

***3. Mordwyo ac Angorfeydd
Navigation and Moorings***

- Rheoliadau a Cofrestru Badau Dŵr Personol a Cwch Pŵer / Personal Watercraft and Powerboat Regulations and Registration
- Cymhorthion Mordwyo / Aids to Navigation
- Bwiau Parth Traethau / Beach Zone Markers
- Cynnal a Chadw Angorfeydd / Mooring Maintenance
- Archwiliadau Tŷ'r Drindod / Trinity House Inspections

***4. Ystadegau Morwrol
Maritime Unit Statistics***

- Ystadegau Angorfeydd Harbwr / Harbour Mooring Statistics
- Ystadegau Harbyrau Eraill / Other Harbour Statistics
- Ystadegau Cyffredinol / General Statistics

5. *Cyllidebau Harbyrau*
Harbour Budgets

- Cyllidebau Terfynnol 2012/13 Final Account
- Targedau Cyllideb Cyfredol 2013/14 Current Budget Targets
- Gwariant ac Incwm Cyfredol at Diwedd Awst / Current Expenditure and Income to end of August
- Ymgynghoriad Ffioedd Angorfeydd 2014 Fees and Charges Consultation

6. *Digwyddiadau*
Events

- Gwobr Traeth / Beach Award
- Ansawdd Dŵr Ymdrochi / Bathing Water Quality
- Gorchymun Rheolaeth Cŵn / Dog Control Order

7. *Goddefiadau a Gwelliannau*
Concessions and Improvements

- Llyfr Cyfeirydd 'Cruising Anglesey' Guide
- Marchnata - Hysbyseb 'PBO' Advertisement-Marketing
- Pontwn Ymwelwyr / Visitor's Pontoon
- Ysgolion Harbwr / Harbour Ladders

8. *Diogelwch Offer Morol / Marine Equipment Security*

- Cynllun Gwarchod Morol / Marine Watch Scheme
(Swyddog Morwrol Harbyrau / Maritime Officer Harbours)

9. *Staff Harbwr / Harbour Staff*

- Trefniadau Gaeaf 2013/14 - Winter Arrangements 2013/14
(Harbwr Feistr / Harbourmaster)
- Rhaglen Waith Cynnal a Chadw Gaeaf / Winter Maintenance Works Programme
(Harbwr Feistr / Harbourmaster)

4.3 I osgoi amheuaeth, nid yw rheol 10(5) na 10(6) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor (cadeirio mwy nag un pwyllgor; tymor swydd cadeirydd) yn berthnasol i'r Pwyllgor.

5. Cworwm a Phleidleisio.

5.1 Bydd gan bob aelod o'r Pwyllgor bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron y pwyllgor.

5.2 Caniateir i'r cyrff neu fudiadau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr yr harbwr anfon eilydd neu ddirprwy i'r cyfarfodydd yn absenoldeb yr aelod sefydlog a bydd gan y deilydd neu ddirprwy bleidlais yn yr un modd â'r aelod sefydlog

5.3 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor fydd chwarter yr aelodaeth bleidleisiol a fydd yn cynnwys o leiaf un cynghorydd sir.

5.4 Caniateir i sylwedydd o bob un o'r tri phwyllgor ymgynghorol harbwr arall fynychu'r cyfarfodydd ond ni fydd ganddynt bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron.

6. Amllder Cyfarfodydd.

6.1 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn arferol ddwywaith y flwyddyn.

6.2 Bydd gan y Cadeirydd hawl i alw cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor os bydd o'r farn fod angen trafodaeth ar unrhyw fater rhwng cyfarfodydd arferol y Pwyllgor.

7. Cylch Gorchwyl.

7.1 Swyddogaeth y Pwyllgor fydd ystyried a chynghori'r Cabinet ynglŷn â materion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr harbwr.

7.2 Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried a chynghori'r Cabinet ar unrhyw fater perthynol arall a gyfeirir ato gan y Cabinet i'w ystyried o dro i dro.

7.3 Bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ymgynghori hefo'r Pwyllgor ar unrhyw fater sydd, ym marn y Cabinet, yn debygol o effeithio'n sylweddol ar reolaeth, diogelwch neu ddatblygiad yr harbwr; a bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan y Pwyllgor ond ni fydd dan rwymedigaeth i weithredu yn unol â'r cyngor a roddir.

8. Trefn y cyfarfodydd.

Yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn y Cyfansoddiad hwn, rheolir gweithgareddau'r Pwyllgor gan reolau gweithdrefn y Cyngor.

ADRODDIAD I'R CABINET

17 Medi 2013

Aelod Cabinet: Cyng John Wynn Jones

Pwnc: Côt Diogelwch Morwrol

Swyddog cyswllt: Llyr Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned

Y penderfyniad a geisir

Fod y Cabinet ddiweddarau trefniadau gweithredu ac atebolrwydd dyletswyddau rheoli harbyrau'r Sir yn unol â'r Cod Diogelwch Morwrol, gan gynnwys ymgymryd â swyddogaethau 'Deilydd Dyletswydd'

Fod cyfansoddiad safonol yn cael ei fabwysiadu gan y Pwyllgorau Harbwr Ymgynghorol presennol, fel rhan o'r trefniadau newydd

Barn yr aelod lleol

Ddim yn fater lleol

Cyflwyniad

Yn 2012, bu Adran Trafnidiaeth llywodraeth ganolog gyhoeddi dogfen 'Cod Diogelwch Morwrol Porthladdoedd' gan ddiweddarau canllawiau a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2000.

Mae'r Côt yn berthnasol i bob awdurdodau harbwr yn y Deyrnas Gyfunol, ac yn sefydlu'r egwyddor i osod safon genedlaethol ar gyfer diogelwch morwrol porthladdoedd er budd diogelwch rhai sydd yn gweithio neu ddefnyddio porthladdoedd, cychod, teithwyr a'r amgylchedd. Mae copi o'r Cod Diogelwch Morwrol wedi ei gynnwys fel Atodiad 1.

